

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL – BIL PENSIYNAU'R GWASANAETH CYHOEDDUS

Cefndir

1. Ar 2 Hydref 2012, rhoddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ hysbysiad ynghylch cynnig fel a ganlyn –
“Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2012, sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”
2. Trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm ar 9 Hydref 2012 ac, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, cytunodd y Pwyllgor i'w gyfeirio at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm i'r Cynulliad erbyn 15 Tachwedd 2012, er mwyn i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2012.
3. Cyflwynodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2012. Nododd farn Comisiwn y Cynulliad fod gan y Bil y potensial i danseilio deddfwriaeth y Cynulliad (e.e. Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010) ac y dylai'r cynllun pensiwn ar gyfer Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Cynulliad gael ei eithrio o'r Bil. Roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus farn y Comisiwn, a chynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.
4. Byddai'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn effeithio ar gynlluniau pensiwn sydd o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, gan

gynnwys cynlluniau pensiwn Aelodau'r deddfwrfeydd hynny. Pan gyflwynodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad, nid oedd unrhyw gynigion cydsyniad deddfwrfiaethol wedi'u cyflwyno yn y deddfwrfeydd hynny. Y farn gyfredol yw y bydd cynlluniau o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn cael eu heithrio o'r Bil gan welliannau sydd i'w cyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y Cyfnod Adrodd, a hynny ar gais Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Cafodd hyn ei gadarnhau yn y Nodiadau Esboniadol diwygiedig a oedd yn cyd-fynd â'r Bil wrth ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi.

5. Cafodd y drafodaeth ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cynulliad ei gohirio, ond bwriedir ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 29 Ionawr 2013.

Y Bil

6. Cyflwynwyd Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2012 gan Ganghellor y Trysorlys. Mae'r Bil wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, a bwriedir cynnal y Cyfnod Adrodd ar 12 Chwefror 2013. Ceir gwybodaeth gefndirol fanwl am y Bil ym mharagraffau 3 i 11 y Nodiadau Esboniadol i'r Bil: <http://services.parliament.uk/bills/2012-13/publicservicepensions/documents.html>

7. Diben y Bil yn gyffredinol yw pennu fframwaith orfodol ar gyfer cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus ar gyfer talu pensiynau a budd-daliadau eraill. Bydd yn gymwys i gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad (sy'n esbonio'r angen am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol). Y cynlluniau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad yw'r cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion Cymru, Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, a'r cynllun ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol isod.

8. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Bil yn newid y cynlluniau pensiwn presennol ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o awdurdodau lleol Cymru. Fodd bynnag, bydd y

fframwaith orfodol y mae'n ei bennu yn gymwys i unrhyw gynlluniau pensiwn newydd a gaiff eu creu ar gyfer y bobl hynny.

9. Yn achos cynlluniau o'r fath (ar wahân i gynllun Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o Lywodraeth Cymru), mae'n rhoi pwerau i Weinidogion (Gweinidogion y DU, Gweinidogion Cymru, neu weinidogion eraill, fel sy'n gymwys) greu cynlluniau newydd, yn amodol ar y fframwaith orfodol sy'n gyffredin.

10. Mae'r Bil hefyd yn darparu pwerau i'r Trysorlys bennu gofynion technegol pellach. Byddai rhai o'r pwerau hyn gan y Trysorlys yn gymwys i unrhyw gynlluniau pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol neu aelodau o Lywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr Atodiad isod.

11. Yn olaf, mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gynnal system oruchwylio annibynnol ar y modd y gweithredir y cynlluniau hyn sydd o fewn ei gwmpas. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw gynllun pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad neu aelodau o Lywodraeth Cymru.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

12. Mae'r darpariaethau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio atynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan bennawd 4 (Datblygu Economaidd) a phennawd 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

13. Mae'n werth nodi nad oes unrhyw bynciau sy'n berthnasol i "bensynau" o dan bennawd 4 (Datblygu Economaidd). Fodd bynnag, mae rhai cynlluniau pensiwn penodol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd 'eithriad i eithriad' o dan bennawd 4. Cafodd pennawd 4 (Datblygu Economaidd) ei ddiwygio gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (OS 2007/2143) i gynnwys eithriad penodol o gymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â chynlluniau pensiwn

personol a galwedigaethol. Cafodd hyn, yn ei dro, ei ddiwygio gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010 a gyflwynodd eithriad i'r eithriad. Mae'r eithriad perthnasol, a'r eithriad i'r eithriad, yn darllen fel a ganlyn (ychwanegwyd y pwyslais):

“Occupational and personal pension schemes (including schemes which make provision for compensation for loss of office or employment, compensation for loss or diminution of emoluments, or benefits in respect of death or incapacity resulting from injury or disease), apart from schemes for or in respect of Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under section 48, the Counsel General or Deputy Welsh Ministers and schemes for or in respect of members of local authorities.”

14. Mae pennawd 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn cynnwys y cyfeiriad a ganlyn mewn perthynas â phensiynau: *Cyflogau, Iwfansau, pensiynau ac arian rhodd i neu o ran Aelodau Cynulliad, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru.* Felly, pan gafodd yr eithriad ar gyfer pensiynau ei gynnwys yng Nghorchymyn 2007, roedd yn angenrheidiol cynnwys eithriad i'r eithriad fel nad oedd yn gwrth-ddweud y cymhwysedd a roddwyd o dan bennawd 13. Ni nodwyd yr angen hwn ar y pryd, ond aethpwyd i'r afael ag ef yng Nghorchymyn 2010.

Y Memorandwm Cydsyniad

15. Nododd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mai cymal 27 oedd y cymal sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. O ganlyniad i welliannau dilynol, ailrifwyd y cymal hwn yn gymal 29. Mae rhifau'r cymalau fel y cânt eu dyfynnu yn y nodyn hwn yn cyfeirio at y cymalau fel yr oeddynt yn ymddangos yn y Bil ar ôl y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r cymal hwn yn pennu darpariaethau penodol yn y Bil a fydd yn gymwys i gynlluniau pensiwn cyrff cyhoeddus newydd, a fyddai'n cynnwys y cynlluniau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, y Prif Weinidog,

Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru ac ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol, neu mewn perthynas â hwy.

16. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn credu bod cymalau eraill yn y Bil hefyd yn berthnasol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Ymdrinnir â'r rhain yn y paragraffau a ganlyn.

Darpariaethau perthnasol yn y Bil

17. Fel y nodir uchod, mae cymal 29 yn y Bil yn pennu darpariaethau penodol o'r Bil a fydd yn gymwys i gynlluniau pensiwn cyrff cyhoeddus newydd, sy'n gynlluniau newydd a gaiff eu sefydlu gan awdurdod cyhoeddus (fel y'i diffinnir yng nghymal 35) ar gyfer talu pensiynau a budd-daliadau eraill i aelodau neu aelodau o staff corff statudol neu ddeiliad swydd statudol. **Gan hynny, byddai'n rhaid i unrhyw gynllun newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Aelodau'r Cynulliad neu aelodau o awdurdodau lleol Cymru gydymffurfio â'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil -**

- (a) adran 3(1) a (2) ac Atodlen 3 (rheoliadau'r cynllun);
- (b) adran 4 (rheolwr y cynllun);
- (c) adrannau 5 a 6 (y bwrdd pensiwn), os oes gan y cynllun fwy nag un aelod;
- (d) adrannau 8 i 10 (dyluniad y cynllun);
- (e) adrannau 11 a 12 (rheoli costau);
- (f) adrannau 14 i 16 (gwybodaeth a chofnodion).

Ceir rhagor o wybodaeth am y darpariaethau hyn mewn atodiad i'r nodyn hwn.

18. Bydd y rhain yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn -

- (a) dylid darllen unrhyw gyfeiriad at reoliadau'r cynllun fel cyfeiriad at reolau'r cynllun;
- (a) dylid darllen unrhyw gyfeiriad at awdurdod cyfrifol fel cyfeiriad at yr awdurdod cyhoeddus a sefydlodd y cynllun.

19. Ni fydd y Bil hwn yn gwneud unrhyw newidiadau i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, bydd yn parhau o fewn cymhwysedd y Cynulliad i ddiwygio neu ddiddymu'r Bil presennol mewn

perthynas ag unrhyw gynllun newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o awdurdodau lleol Cymru. Fodd bynnag, byddai angen Deddf Cynulliad yn hytrach na'r broses symlach ar gyfer creu cynllun pensiwn newydd, fel y'i sefydlwyd gan y Cynulliad ym Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Arwyddocâd hyn i'r Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau

20. Mae adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer taliadau Aelodau'r Cynulliad. Mae is-adran (3) yn caniatáu gwneud darpariaethau ar gyfer eu pensiynau; mae is-adran (4) yn nodi y gallai hyn gynnwys sefydlu a gweinyddu cynlluniau; mae is-adran (6) yn datgan bod y ddarpariaeth i gael ei gwneud drwy benderfyniad gan y Bwrdd Taliadau; ac mae is-adran (7) yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn roi effaith i'r penderfyniad hwnnw. **Gan hynny, byddai'r Bil fel y'i drafftwyd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn i arfer eu swyddogaethau o dan Ddeddf 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2010 i sefydlu'r Bwrdd Taliadau).**

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

24 Ionawr 2013

Annexe – Provisions of the Public Service Pensions Bill which would affect any new scheme for Welsh Ministers, the Counsel General, Assembly Members or members of Welsh local authorities

Clause 3 requires the consent of the Treasury for any new scheme regulations (rules in the case of the Assembly scheme), .. On the other hand, there would be no need for that consent for scheme regulations made by Welsh Ministers for the fire and rescue service.

Clause 4 will require each scheme to have its own manager with responsibility for scheme administration. The manager may be the 'responsible authority' which is the body that makes the scheme. This would be consistent with the Commission managing the scheme in accordance with section 20(7) of the Government of Wales Act 2006.

Clause 5 will require the scheme to provide for a Pension Board. The remit of pension boards will be to ensure compliance with legislation, codes of practice and regulatory issues. The clause contains various provisions relating to conflict of interest.

Clause 6 will require the scheme manager to publish information regarding the membership and responsibilities of the Board.

Clauses 8–10 relate to the design of a scheme. Schemes may be defined benefits schemes, defined contributions schemes or schemes of any other description, though final salary schemes are specifically excluded. Index-linking must comply with annual orders made by the Treasury.

Clause 9 relates to revaluation and clause 10 provides that the normal pension age must be the same age as a person's state pension age, or 65 if that is higher. It then contains further provisions regarding the effect of changes to the state pension age on the payment of benefits under schemes.

Clauses 11 and 12 relate to cost control. Clause 11 relates to the actuarial valuation of defined benefits schemes in accordance with Treasury

directions. Clause 12 provides for capping the cost to the employer in accordance with regulations and directions made by the Treasury.

Clauses 14 and 15 require the scheme manager to publish certain information about the scheme and to provide information to the Treasury in accordance with Treasury directions. Section 16 will require the manager to maintain records in accordance with regulations made by the Secretary of State.